


Yr ystlum - tamaid i aros pryd

Duncan Brown

[Erthygl a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Edward Llwyd yn Y Naturiaethwr, rhifyn 21 (Ionawr 1989). Fe'i hatgyhyrchwyd yma gyda mân welliannau i'r testun, ychwanegiad y lluniau o Gomin Wicimedia ac ambell ddiweddariad mewn bachau petrual.]



Wn i ddim pam, ond nid oes gan yr ystlum lawer o elynion yn y wlad hon. Tynged ambell un serch hynny yw wynebu ei dranc yng nghrafangau neu safn anifail - a chrafangau

tylluan ddaw i'w ran yn amlach na pheidio. Ond rhaid cyfaddef nad yw llygod yr awyr - y 'Fledermaus' megis - i'w cymharu â llygod y ddaear fel cynhaliaeth i'r dylluan. Gan mor anaml y caiff ystlum ei fwyta gan greaduriaid ysglyfaethus, nid yw ei elynion efallai yn destun ymchwil arbennig o addawol. Eto i gyd hyderaf na fydd astudiaeth fanwl o'r pwnc yn gwbl ofer chwaith. Cychwynnais ar y gwaith, esoterig hwn ar ôl i weddillion un neu ddau o ystlymod ddod i'r fei tra'n astudio pellenni bwyd tylluanod o ardal Dolgellau rhai blynyddoedd yn ôl. Ond rhag i neb gael camargraff am eu pwysigrwydd i dylluanod y cylch, dim ond dau ystlum a gafwyd mewn 1500 o bellenni dros gyfnod o dair blynedd.

Cyn bod modd dod i unrhyw gasgliadau cyffredinol am elynion yr ystlum felly, bu'n rhaid chwilota ymhlith astudiaethau eraill am ragor o wybodaeth, a holi pobl fu'n gweithio yn yr un maes. Ni chevais fy siomi. Cefais bapur gwyddonol o Wlad Pwyl yn gwyntyllu'r union bwnc yn y wlad honno. Cafwyd yno yr Ystlum Aden-lydan **Eptesicus serotinus* (sef rhywogaeth a gafodd ei darganfod yng Nghymru am y tro cyntaf y llynedd [mwy nag un lle erbyn hyn]) yn amlach ym mwyd tylluanod y wlad nac unrhyw ystlum arall. Dro arall, cefais sampl o enghreifftiau oddiwrth athro o Brifysgol Manceinion a fynegodd ei falchder bod y wybodaeth yn cael ei chasglu.

Yr Hirglust, y Natterer a'r Lleiaf

Y dylluan wen yw'r aderyn ysglyfaethus mwyaf proffidiol i'w astudio yn y cyswllt hwn gan iddi fwrw ei phellenni yn yr un man dros gyfnod hir o amser. Fe welir o'r siart mai honno yw prif ffynhonnell y wybodaeth ac mai'r Hirglust [*Plecotus auritus*], y Natterer [*Myotis nattereri*] a'r Ystlum Lleiaf [*Pipistrellus pipistrellus*] yw ei 'hoff' rywogaethau.



Ystlum Natterer, ystlum hirglust a ac ystlum bach

Rhain hefyd yw'r ystlumod mwyaf cyffredin yng nghefn gwlad ac ni ddylai eu cynrychiolaeth gymharol uchel yn y pellenni ein synnu o gwbl. Ond yn ôl pob son mae naw ystlum o bob deg yn y wlad yn Ystlum Lleiaf [erbyn hyn mae dau fath o ystlum lleiaf wedi ei ddisgrifio], a dylai ei gynrychiolaeth yntau fod yn uwch na'r ddau arall o'r herwydd. Gan nad felly yr oedd hi, efallai fod yr Hirglust, yr ystlum amlycaf ar y fwydlen drwyddi draw, dan fwy o fygythiad oddiwrth y dylluan oherwydd ei arfer o loffa am bryfetach mewn glaswellt a phorfa. Nid yw'n arfer gan y ddau arall wneud hynny, ac hwyrach eu bod fymryn yn ddiogelach o ganlyniad.

Iwerddon a Phrydain yn wahanol

Gan i'r ystlumod ymddangos amlaf mewn pellenni a ddaeth o ardaloedd arbennig, mae'n debyg mai digwydd ar ffynhonnell barod a chyfleus a wna'i'r dylluan. Bydd tylluanod ac ystlumod yn aml yn mynychu yr un 'filltir sgwar' neu hyd yn oed yr un glwydfan - rhyw hen dŷ gwair neu geubren efallai. Mae'n debyg mai hela ar hap mae'r dylluan y pryd hynny, sef cymeryd beth bynnag sydd ar gael. [Bu'n ddamcaniaeth gennyf ar ôl ysgrifennu hyn o lith bod yr ystlum Natterer yn fwy agored i gael eu chymryd gan dylluan wen gan fod yr ystlum hwn yn hoff o lechu rhwng y cerrig yn waliau'r tai gwair sydd hefyd yn yn digwydd bod yn glwydfan i dylluan ac yn brae cyfleus felly iddi wrth i'r ystlum hwn ymadael â, a dychwelyd i'w llechfan.]

Fe ymddengys hefyd fod tylluanod Iwerddon yn debycach na rhai ynys Prydain o ddal Ystlumod Hirglust. O ystyried samplau Prydain ar wahan, y Natterer yw'r goruchaf, Mae'n bosib fod cynrychiolaeth ystlumod y ddwy ynys, ac felly y dewis sy'n wynebu'r tylluanod, yn dra gwahanol.

Casino Byd Natur

Cymerodd filoedd o bellenni'r dylluan wen i gael dyrnaid o esgyrn ystlumod [nodir bod penglogau'r gwahanl fathau o ystlum yn weddol hawdd eu gwahaniaethu ar y cyfan].

Rhy brin yn anffodus fu cynnyrch y tylluanod eraill i ganiatau'r un math o ddamcaniaethu amdanynt er i ambell beth annisgwyl godi ynglŷn â hwythau hefyd.

Tra'n cerdded gyda'i gi ger Llyn Alaw, Môn, un diwrnod o aeaf blwyddyn neu ddwy yn ôl, digwyddodd cyfaill i mi dorri ar draws tylluan glustiog yn y brwyn o'i flaen.

Gadawodd yr aderyn un bellen ar ei ôl, ac o'i hagogor cafwyd ynddi benglog yr Ystlum Mawr [*Nyctalis noctula*]. Beth yw'r tebygolrwydd o ddod o hyd i ystlum prin mewn un bellen o eiddo aderyn prin? Gall unrhyw beth ddigwydd yng nghasino fawr Byd Natur.

*Enwau ystlumod yn ôl y rhestr o famolion yn Y Naturiaethwr Gorff.1981 [hefyd bellach, yn ôl cyfrol 1 Enwau Anifeiliaid a Phlanhigion, ac adran Bywiadur gwefan Llên Natur www.llennatur.cymru]